# Llais Cymru - Cyfarfod Bwrdd

# Dydd Mercher 24 Gorffennaf 2024

### Lleoliad: Gwesty Ty Newydd, Heol Penderyn, Hirwaun, Aberdâr CF44 9SX

Cyfarfod Zoom

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Medwin Hughes | Cadeirydd |
| Alyson Thomas | Prif Weithredwr |
| Bamidele Adenipekun | Anweithredol |
| Barbara Harrington | Anweithredol |
| Jack Evershed | Anweithredol |
| Grace Quantock | Dirprwy Gadeirydd |
| Karen Lewis | Anweithredol |
| Rajan Madhok | Anweithredol |
| Jason Smith | Anweithredol |

**Mynychwyr:**

| | |
|---|---|
| Alun Lloyd | Cynghorydd Llywodraethu Cyllid (ar-lein) |
| Angela Mutlow | Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| Ben Eaton | Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Joanne Bolton | Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Richard Bevan | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd |
| Kirsty Contreras-Stacey | Swyddog Llywodraethu |
| Eleri Soanes | Swyddog Cymorth Gweinyddol (ar-lein) |

DRAFT

## Croeso, cyflwyniadau, datganiadau o ddiddordeb ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso cynnes i Joanne Bolton (Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol) a Ruth Thomas (aelod o'r cyhoedd). Croesawodd y cadeirydd hefyd bawb a oedd yn ymuno â'r cyfarfod ar-lein.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mwoyo Makuto (Aelod Cyswllt)

1.3 Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau neu wrthdaro buddiannau ynghylch yr eitemau ar yr agenda.

## Cofnodion

2.0 Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod arbennig y bwrdd a gynhaliwyd ar 22 Ebrill a'r cyfarfod bwrdd cyhoeddus a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2024 yn gofnod cywir.

## Gweithredoedd

3.0 Darparodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y daflen weithredu a nododd y Bwrdd y diweddariadau ac unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill:

A24-04-01 – Gweithio **mewn partneriaeth** – Cytunodd y Bwrdd y byddai Llais yn cydweithio â'i bartneriaid i flaenoriaethu ymagwedd fwy integredig at iechyd a gofal cymdeithasol dros y 6 mis nesaf a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ymateb Llais i ymgynghoriad cyfredol Llywodraeth Cymru.

A24-04-02 – **Datganiad Misol Cyfathrebu** - Byddai'r Prif Weithredwr, fel rhan o drefniadau cyfathrebu Llais, yn cyhoeddi datganiad misol i'r cyhoedd yn amlygu gwaith Llais a'i brif lwyddiannau a'i effeithiau.

A23-03-09 – **Trefniadau Cydweithredu** - Roedd gwaith gydag awdurdodau lleol a chyrff y GIG i ddatblygu'r ddogfen trefniadau cydweithredu ymhellach yn mynd rhagddo a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- A24-01-02 – **Gwybodaeth am y gweithlu ar amrywiaeth ymgeiswyr:** Roedd gwaith pellach yn cael ei wneud ar fformat adroddiad dangosfwrdd gweithlu a byddai'r wybodaeth hon yn cael ei darparu yng nghyfarfod mis Medi 2024.

Cytunwyd ar y cofnod o gamau gweithredu a phenderfyniadau, a nodwyd y cynnydd.

## Adroddiad gan y Cadeirydd

4.0 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Llais wedi gwrando ar gynrychiolaethau yn Sioe Frenhinol Cymru a'u bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch canlyniadau iechyd ledled Cymru.

4.1 Amlygodd y Cadeirydd fod Llais yn parhau i ymgysylltu â chymunedau a buddiannau allweddol ledled Cymru ac y byddai'n parhau i ddatblygu ei weithgarwch ymgysylltu â'r gymuned.

4.2 Cafwyd cyflwyniadau ardderchog yn y Sioe Frenhinol a ddangosodd ffyrdd integredig o weithio. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen parhaus i ganolbwyntio ar weithgarwch integredig meysydd polisi economaidd, cymdeithasol ac iechyd er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bawb.

Pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen i Llais barhau i amlygu pwysigrwydd gwella canlyniadau iechyd a galw am bolisi integredig ac ymgysylltu ar draws pob maes allweddol. Byddai rolau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn bwysig i hyn, yn enwedig o ran canlyniadau i blant a phobl ifanc a chymorth a gwasanaethau iechyd meddwl a lles. Roedd angen i Llais chwarae rhan allweddol wrth gynrychioli barn dinasyddion yn y cyfarfodydd hyn a sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ymgysylltu'n weithredol â Llais.

4.3 Cytunwyd y byddai'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei rannu ag aelodau'r bwrdd. Byddai Llais yn cyflwyno ymateb ac yn amlygu ei fwriad i ymgysylltu â phartneriaid i amlygu materion sylweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a cheisio sicrwydd ynghylch dulliau integredig mewn ymateb.



DRAFT

**A24-07-01 –** Y Prif Weithredwr i gyflwyno ymateb i Lywodraeth Cymru a thynnu sylw at ei bwriad i ymgysylltu â phartneriaid i dynnu sylw at faterion sylweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a cheisio sicrwydd ynghylch dulliau integredig mewn ymateb.

## Adroddiad y Prif Weithredwr

5.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn ymdrin â gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

5.2 Amlygwyd mai cyfarfodydd uwchgynhadledd gofal iechyd oedd y fforymau pwysicaf a mwyaf defnyddiol, ac mae'n hollbwysig bod Llais yn ymwneud yn gyson â'r holl bartneriaid.

5.4 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Comisiynydd Pobl Hŷn presennol yn rhoi'r gorau i'w swydd ddiwedd Gorffennaf 2024, ac y byddai Llais yn parhau i weithio'n agos gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru newydd, Rhian Bowen-Davies.

5.5 Adroddodd y Prif Weithredwr bryderon ynghylch llinell gymorth 24-awr y Cyngor Bydwreigiaeth. Roedd y sgyrsiau'n parhau ac roedd yr awdurdod safonau proffesiynol bellach yn cymryd rhan.

5.6 Dywedwyd y byddai angen i berfformiad presennol adrannau achosion brys a phrofiadau dinasyddion sy'n cael trafferth cael mynediad at wasanaethau amserol a heriau sefydliadau'r gwasanaeth iechyd i ymateb i lefelau galw lywio datblygiad mesurau newydd.

5.7 Cadarnhawyd bod cynrychiolwyr Llais wedi bod mewn sgwrs barhaus gyda thîm y cyn Brif Gomisiynydd Ambiwlans Brys ynghylch y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys yng Nghymru i gynrychioli barn dinasyddion.  Nodwyd bod cytundeb wedi bod ac wedi gorfod newid rhai o'r seiliau.

5.8 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd rôl Llais yn cael ei deall yn ddigon da mewn cyrff cyhoeddus partner.  Cydnabuwyd ei fod yn gwella gydag enghreifftiau cadarnhaol o Llais yn cael ei argymell i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Eglurwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i godi proffil Llais.  Roedd gwaith ar y gweill i greu adnodd e-ddysgu



DRAFT

rhagarweiniol gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i'w ddefnyddio gyda chyrff cyhoeddus yn eu prosesau sefydlu a'u prosesau addysg/hyfforddiant parhaus.  Nodwyd adroddiad y Prif Weithredwr.

**Adroddiad gan Bwyllgorau'r Bwrdd:**
**- Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth**
**- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

**Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

6.1 Rhoddodd Karen Lewis, cadeirydd y pwyllgor, y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod ffurfiol diwethaf y pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2024.  Roedd holl aelodau'r pwyllgor a chynrychiolwyr archwilio mewnol, archwilio allanol, uwch gydweithwyr ar y Tîm Gweithredol yn Llais yn bresennol.

6.2 Roedd y pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo ystod o ddogfennau llywodraethu, a oedd bellach wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.  Cytunwyd bod angen gwneud rhagor o waith ar gyfarwyddiadau ariannol sefydlog a gweithdrefnau ariannol cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo ac roedd hyn wedi'i gwblhau y tu allan i'r pwyllgor yn barod ar gyfer y Bwrdd. Eglurwyd bod Archwilwyr Mewnol yn rhannu eu canfyddiadau ar 4 adroddiad oedd wedi eu cwblhau; yr oedd pob un ohonynt wedi rhoi sicrwydd 'rhesymol'.  Hefyd, cyflwynwyd Adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol, oedd hefyd yn rhoi sefyllfa gyffredinol o sicrwydd 'rhesymol' ar gyfer blwyddyn weithredol gyntaf Llais.  Byddai hyn nawr yn cael ei gynnwys yn natganiad llywodraethu'r sefydliad.    Diolchodd Karen Lewis hefyd i'r Prif Weithredwr a'r tîm am eu gwaith caled yn cyflawni'r sefyllfa gadarnhaol hon.

6.3 Amlygodd Karen Lewis hefyd fod rhai Materion TG/Seiber wedi'u codi fel rhan o'r adroddiad risg a'r drafodaeth a bod hyn wedi'i rannu â Ben Eaton (Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu) fel yr arweinydd ar gyfer y maes hwn.  Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Medi yn dilyn gwaith pellach a chyngor a chefnogaeth gan un o aelodau annibynnol y pwyllgor.

6.4 Cadarnhawyd bod gwaith yn mynd rhagddo'n dda gyda datblygu'r adroddiad blynyddol drafft a'r cyfrifon a bod cyfarfod pellach wedi'i drefnu ar gyfer 31 Gorffennaf.  Roedd yr adroddiad yn y cyfnod

drafft terfynol a byddai'n cael ei gyflwyno i Archwilio Cymru erbyn diwedd mis Awst yn unol â'r gofynion.

## Defnydd o'r Sêl Gyffredin

7.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd bapur ar y defnydd o'r sêl gyffredin a chadarnhaodd fod y sêl gyffredin wedi'i defnyddio ddwywaith ers gweithredu'r ychwanegiad at y rheolau sefydlog fel y cytunwyd yng nghyfarfod mis Ebrill. Cadarnhaodd y Bwrdd yr adroddiad.

## Gwaith ein tîm cenedlaethol

8.1 Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth ac Ymgysylltiad Sefydliadol gyflwyniad i'r bwrdd ar waith y tîm cenedlaethol, effeithiau a gweithrediadau. Cafodd dderbyniad da gan y bwrdd a rhoddodd gipolwg ar Llais a'i weithrediadau.

## Trosolwg o'n heffaith a'n gweithrediadau

9.1 Amlygodd y Cadeirydd lwyddiant mawr ddigwyddiad lansio'r Cynllun Strategol a diolchodd i bawb a fu'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer y cyfarfod.

Cadarnhaodd Ben Eaton fod 180 o bobl yn bresennol, a oedd yn gadarnhaol iawn. Cytunodd y Bwrdd ei bod yn dda clywed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Diolchwyd i'r holl siaradwyr, aelodau'r bwrdd a holl staff Llais. Gofynnodd Rajan Madok a oedd unrhyw adborth o'r digwyddiad lansio. Cadarnhawyd y gofynnwyd am adborth ar y digwyddiad, a byddai adroddiad gwerthuso yn cael ei ddatblygu. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n bwysig a gwerthfawr rhannu'r adborth o'r digwyddiad gyda phartneriaid a'r cyhoedd.

9.2 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod nifer o awgrymiadau defnyddiol gan staff ar lawr gwlad ar sut y gallent gydweithio a chyda sefydliadau a buddiannau eraill.

9.3 Gofynnodd y Cadeirydd sut oedd y sgyrsiau a oedd eisoes yn digwydd yn cael eu mapio. Eglurwyd ei bod yn rhan o flaenoriaeth gyntaf y cynllun i fapio ymgysylltiadau, yn enwedig i adnabod

unrhyw fylchau a beth ellid ei wneud i annog ymgysylltiadau pellach. Roedd y Cadeirydd wedi ymrwymo i amserlen 6 mis ar gyfer cynnal seminar Teams a byddai'n arfer da cynnal y dilyniant hwn gyda'r rhai a oedd yn bresennol a grwpiau eraill â diddordeb.

9.4 Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cyhoeddi datganiad misol ar ymgysylltu â'r meysydd yr oedd Llais yn ymwneud â hwy ledled Cymru.

## Strategaeth Gwirfoddoli

10.1 Cyflwynwyd y strategaeth wirfoddoli gan Ben Eaton (Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu) a'i thrafod, a chytunwyd ei bod yn bwysig bod Llais yn ymgysylltu â gwirfoddolwyr, staff ac yn bwysicaf oll yn cyfathrebu'n gyhoeddus.

10.2 Cadarnhawyd bod Llais yn mynd i archwilio'r opsiwn o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i wella gwirfoddoli drwy fudiad Llais.

Cymeradwyodd y Bwrdd y strategaeth gwirfoddolwyr i'w rhoi ar waith.

## Adolygu a diweddaru rheolau sefydlog

11.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd y rheolau sefydlog wedi'u hadolygu a'u diweddaru. Roedd y rheolau sefydlog newydd wedi cael eu craffu drwy'r pwyllgor archwilio a sicrwydd risg. Cymeradwyodd y Bwrdd y rheolau sefydlog.

**A24-07-02** - Cytunwyd y byddai'r rheolau sefydlog yn cael eu hychwanegu i wefan Llais ac y byddai codi ymwybyddiaeth staff yn cael ei wneud i ddatblygu dealltwriaeth a chydymffurfiaeth.

## Rhestr o faterion wedi'u hadolygu a'u diweddaru a gadwyd yn ôl i'w cymeradwyo gan y bwrdd

12.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd restr wedi'i hadolygu a'i hailddatblygu o faterion a gadwyd yn ôl i'w cymeradwyo gan y bwrdd yn unig. Eglurwyd ei bod yn arfer da adolygu'r rhain yn rheolaidd a'u bod hefyd wedi'u hailddatblygu fel rhan o'r adolygiad llywodraethu parhaus.

Cadarnhawyd pe na bai Llais yn adolygu ei Restr Materion a Gadwyd yn Ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd, fel rhan o'i drefniadau llywodraethu ehangach, y byddai mewn perygl o weithredu heb y sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer un o'i ddogfennau llywodraethu allweddol. Byddai hyn yn peri risg i Llais weithredu neu wneud penderfyniadau nad oedd yn bodloni ei ofynion statudol gofynnol.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr amserlen newydd. Cytunwyd y byddai'r amserlen yn cael ei chyhoeddi ac y byddai codi ymwybyddiaeth hefyd yn cael ei wneud ynghyd â'r rheolau sefydlog newydd.

**A24-07-03 - Cyhoeddiad Rhestr o faterion a gadwyd yn ôl -** Cytunwyd i gyhoeddi rhestr o faterion a gadwyd yn ôl ar wefan Llais

## Fframwaith pwyllgorau a Chylch Gorchwyl ar gyfer pwyllgorau

13.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd Dros Dro’r Bwrdd gylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru i'r Bwrdd ar gyfer y pwyllgor archwilio a sicrwydd risg a chynigiodd gylch gorchwyl newydd ar gyfer sefydlu Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth.

13.2 Roedd y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer y pwyllgor archwilio a sicrwydd risg wedi'i ddatblygu yn dilyn adolygiadau effeithiolrwydd y pwyllgor a'r Bwrdd yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru yn adlewyrchu'r newidiadau y cytunwyd arnynt i gwmpas busnes y pwyllgor a'r rhyngwyneb â'r gweithlu newydd, y pwyllgor tâl a thelerau gwasanaeth.

13.3 Cadarnhawyd bod cylch gorchwyl y pwyllgor gweithlu, tâl a chylch gwasanaeth yn gwbl newydd i adlewyrchu rôl y pwyllgor sy’n cwmpasu materion gweithlu ehangach, materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ymgorffori’r cyfrifoldebau yn y pwyllgor tâl a thelerau gwasanaeth blaenorol a hefyd amlygodd y gofyniad i’r pwyllgor gyfarfod yn amlach.

13.4 Cymeradwyodd y Bwrdd sefydlu pwyllgor gweithlu, tâl a thelerau gwasanaeth a chymeradwyo’r cylch gorchwyl arfaethedig. Cymeradwyodd y Bwrdd hefyd y cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor archwilio a sicrwydd risg.

Cadarnhawyd y byddai cyfarfod cyntaf y pwyllgor gweithlu, tâl a thelerau gwasanaeth yn cael ei gynnal yn yr hydref ac y byddai'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.

## Symudiadau a threfniadau swyddfeydd Llais

14.1 Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau fod 3 ymgynghoriad staff ar y gweill ynghylch y posibilrwydd o adleoli swyddfeydd Llais a'r aelodau staff cysylltiedig. Roedd hyn yn unol ag ymrwymiad y sefydliad i adolygu trefniadau tenantiaeth i sicrhau bod y lleoliadau presennol yn parhau i ddiwallu anghenion y sefydliad a chynnig cyfleusterau priodol i'n staff a'r cyhoedd wrth ddefnyddio ein gwasanaethau. Y 3 rhanbarth sy'n ymwneud â'r broses ar hyn o bryd yw:

- Swyddfa Caerfyrddin, Gorllewin Cymru – Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 20 Mehefin 2024 a daeth yr ymgynghoriad i ben yn gynnar ar gais y staff, gan gadarnhau eu bod yn fodlon â'r cynnig.
- Rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg – cychwynnodd yr ymgynghoriad ar 28 Mehefin a disgwylir iddo bara am bedair wythnos. Darperir diweddariad yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Medi 2024.
- Tîm cenedlaethol – cychwynnodd yr ymgynghoriad ar 3 Gorffennaf a disgwylir iddo bara am bedair wythnos.

Mae'r holl staff yr effeithir arnynt wedi cael cynnig y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac ymweld â'r lleoliadau newydd arfaethedig. Mae cydweithwyr Undebau Llafur wedi mynychu pob digwyddiad lansio, ac mae holl gwestiynau ac atebion y staff wedi'u coladu'n ddienw a'u dosbarthu i staff yn wythnosol.

Mewn perthynas â symud posibl Swyddfa Aberhonddu, rhanbarth Powys, bydd hyn nawr yn dechrau'n hwyrach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol gan fod safleoedd ychwanegol a allai fod yn addas wedi'u nodi ac mae angen eu gwerthuso'n llawn i weld a ellir eu hystyried.

Mae unrhyw symudiadau yn cael eu cynnal o dan y Polisi Newid Sefydliadol. Bydd hyn yn sicrhau bod staff sy'n dioddef unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i unrhyw symudiad y cytunwyd arno yn cael eu had-dalu yn unol â'r polisi.

## Strategaeth gyfathrebu

15.1 Cyflwynwyd y strategaeth gyfathrebu i'r bwrdd gan y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu.

Mae'r Strategaeth Gyfathrebu yn nodi ein bwriad strategol ar gyfer cyfathrebu Llais ar gyfer y cyfnod 2024-2027.

Mae wedi'i ddatblygu a'i lywio gan ymgysylltu â phobl a chymunedau, ein staff a'n gwirfoddolwyr, ein rhanddeiliaid a'r hyn y mae'r sefydliad wedi'i ddysgu yn ystod ein blwyddyn gyntaf o weithredu.

Bydd y Strategaeth Gyfathrebu yn sail i'r gwaith parhaus o ddatblygu'r cynllun cyfathrebu mewnol ac allanol, a fydd yn ystyried ac yn darparu rhaglen effeithiol o sut rydym yn cyfathrebu effaith, a gyda phwyslais ar "gau'r cylch" gyda phobl a chymunedau fel eu bod yn ymwybodol o beth effaith eu cyfranogiad ar wasanaethau.

Bydd y Strategaeth a'r Cynlluniau hefyd yn blaenoriaethu cyfathrebu gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, fel bod Llais yn cyfathrebu mewn ffordd sy'n gweithio orau i bob rhan o Gymru.

Diolchodd y Bwrdd i'w gydweithwyr am y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud i ddatblygu'r strategaeth. Cymeradwyodd y Bwrdd y strategaeth i'w gweithredu.

## Adroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau

16.1 Cyflwynwyd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau i'r bwrdd a chadarnhawyd mai hwn yw datganiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau cyntaf Llais ers lansio ein sefydliad ar 1 Ebrill 2023.

Yn y datganiad cyflog hwn, mae rhyw wedi'i adrodd mewn ffordd ddeuaidd, sy'n cydnabod dynion a merched yn unig. Mae hyn yn dilyn canllawiau llywodraeth y DU ar adrodd ar gyflog rhwng y rhywiau.
Gwyddom fod llawer o bobl nad ydynt yn uniaethu mewn ffordd sy'n ffitio i gategori deuaidd ac nad yw'r adrodd hwn yn eu hystyried.



DRAFT

Ar hyn o bryd mae 102 o aelodau staff, 89 o fenywod a 13 o ddynion.
Mae hyn yn golygu ar gyfer pob aelod o staff gwrywaidd sy'n gweithio yn Llais, bod yna 7 menyw.

Cyflwynwyd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau i'r bwrdd, trafodwyd a chytunwyd.

## Cynllun ariannol drafft 2024/2025 ac adroddiad diweddaru Cyllid

17.1 Cyflwynwyd yr adroddiad cyllid i'r bwrdd gan y Prif Weithredwr.

17.2 Cadarnhaodd y Cynghorydd Llywodraethu Cyllid fod y dyraniad cyllideb blynyddol terfynol ar gyfer 2024/2025 yn cael ei drafod ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru a bod Llais yn aros am lythyr terfynol y gyllideb, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod trafodaethau cynllunio wedi cychwyn yn gynharach yn y flwyddyn ar sail tybiaethau ein dyraniad cyllideb.

18.1 Adroddwyd bod perfformiad ariannol mis 3 yn danwariant, a oedd yn uwch na'r disgwyl. Ar ddiwedd mis Mehefin roedd £144,713, gyda £120,130 ohono yn danwariant arian net, llai'r defnydd a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn. Ym mis Mehefin roedd yn £38,389, gan gynnwys £46,846 o danwariant arian net llai'r defnydd a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn.

18.2 Nodwyd bod y tanwariant hyd yma yn seiliedig ar y rhagdybiaethau ariannu allweddol yn unol â'r Cynllun ariannol interim. Pe na bai cyllid yn dod, yn unol â'r tybiaethau, byddai'r sefyllfa ariannol yn gwaethygu'n sylweddol. Er bod y perfformiad hyd yma yn danwariant, dim ond tanwariant o £1k oedd yr alldro a ragwelwyd – gan adlewyrchu proffiliau gwariant dros y 3 chwarter nesaf.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod gwaith manwl yn parhau i ddatblygu'r trefniadau cynllunio a rheoli ariannol ymhellach gan ganolbwyntio ar ddeiliaid cyllidebau, dirprwyo cyllidebau a'u cyfrifoldebau.

## Adolygu a diweddaru cyfarwyddiadau ariannol sefydlog



DRAFT

19.1 Cyflwynwyd cyfarwyddiadau ariannol sefydlog diwygiedig a diweddar i'r Bwrdd yn dilyn cymeradwyaeth gan y pwyllgor archwilio a sicrwydd risg. Cafodd y cyfarwyddiadau ariannol sefydlog (SFIs) eu datblygu a'u mabwysiadu'n wreiddiol ym mis Chwefror 2023. Roedd gwaith adolygu wedi'i wneud ac amlinellwyd amrywiaeth o ychwanegiadau a diwygiadau. Roedd y rhain yn cynnwys:

Cymeradwywyd y Diwygiad i derfynau cymeradwyo taliadau gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2023

- Newid terfynau cymeradwyo taliadau – Rheolwyr a Chyfarwyddwyr Gweithrediadau Rhanbarthol.
- Diwygio rhagolygon llif arian - o chwarterol i fisol
- Diwygio'r diffiniad cyfalaf – i alinio â pholisïau cyfrifyddu Cyfrifon Blynyddol 2023/24.
- Wedi'i ddileu - Sicrwydd Arian a Gwerthoedd Gwerthfawr gan na ddefnyddiwyd sieciau

Cymeradwyodd y Bwrdd y cyfarwyddiadau ariannol sefydlog wedi'u diweddaru a chytunwyd y byddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi ac y byddai gweithgarwch codi ymwybyddiaeth yn cael ei gynnal gyda staff i hyrwyddo cydymffurfiaeth.

## Adroddiad gweithlu

20.1 Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad i'r Bwrdd ar y cynnydd o ran materion gweithlu allweddol. Roedd hyn yn cynnwys recriwtio, dysgu a datblygu, fframwaith sgiliau ac ymddygiad a gweithgarwch datblygu sefydliadol.

20.2 O ran dysgu a datblygu, cydnabuwyd bod angen ffocws parhaus ar ddatblygu a chyflwyno rhaglen ddysgu gynhwysfawr ar gyfer gwirfoddolwyr.

Mewn perthynas â hyfforddiant gofal cymdeithasol, dywedwyd, yn anffodus, bod rhoi'r contract ar gyfer hyn wedi'i ohirio oherwydd problemau gyda'r tendr a bod y Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau, Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Pobl, Llesiant a Datblygu Sefydliadol yn gweithio'n agos gyda'r adran gaffael i geisio datrys y rhain cyn gynted â phosibl.

Roedd e-ddysgu statudol a gorfodol yn parhau i fod yn broblem gyda staff yn methu â chael mynediad i fodiwlau trwy'r Cofnod Staff Electronig ac yn gallu lawrlwytho unrhyw ddata yn ymwneud â chyfraddau cwblhau'r modiwlau hyn. Ni allai Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru unioni'r gwall ac roedd darparwyr y platfformau bellach yn ymchwilio i'r mater fel mater o frys. Byddai diweddariad yn cael ei ddarparu ar ddyddiad cwblhau pan gaiff ei gadarnhau.

20.3 Mewn perthynas â fframwaith ymddygiad Llais roedd adborth gan staff a gwirfoddolwyr yn cael ei goladu yn dilyn yr ymgynghoriad. Byddai'r sylwadau hyn nawr yn cael eu cynnwys yn y fframwaith ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol gyda'r Bwrdd.

Darparwyd adroddiad ar y rhaglen a oedd wedi bod yn rhedeg gyda staff ar adeiladu timau effeithiol a chydweithio fel un sefydliad. Cwblhawyd y sesiwn olaf ar gyfer y tîm cenedlaethol ar 9 Gorffennaf a disgwylir adborth gan yr hwyluswyr, ond dywedodd pawb a gymerodd ran fod y sesiwn yn ddiddorol ac yn werth chweil iddynt.

20.4 **Recriwtio Llais** – Adroddwyd bod sawl rôl ar wahanol gamau o recriwtio a datblygu 2 swydd ar y cam penodi, 4 swydd ar wiriadau cyn cyflogaeth, 2 swydd ar y cam hysbysebu byw, 2 yn aros am werthusiad swydd a 2 yn y cyfnod datblygu. Dywedwyd bod rolau sydd angen eu gwerthuso'n llawn gan banel gwerthuso swyddi yn cymryd rhwng 4-6 wythnos i'w cwblhau.

## Adroddiad risg corfforaethol

21.1 Cyflwynwyd yr adroddiad dangosfwrdd Risg cychwynnol newydd gan Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd/Pennaeth Llywodraethu. Nododd y Bwrdd yr adroddiad a chytunwyd bod adroddiad ar ffurf dangosfwrdd yn ddatblygiad defnyddiol, gan gydnabod bod gwaith pellach yn cael ei wneud drwy'r broses adolygu risg, a oedd i'w adrodd i'r Bwrdd ym mis Medi.

## Unrhyw fusnes arall

22.1 Ni nodwyd unrhyw fusnes pellach i'w drafod.



DRAFT

## Rhagolwg a chynllun gwaith y Bwrdd a lleoliadau diwygiedig ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd

23.1 Trafodwyd a chymeradwywyd y rhagolwg a chynllun gwaith y bwrdd. Nodwyd y byddai'r Safonau Ymddygiad yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

## Cwestiynau gan y cyhoedd

24.1 Nododd y Cadeirydd na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 14.23yp**

DRAFT